

mae gennych hawl i ddweud eich barn

Gwasanaeth Ymwelydd Annibynnol Tros Gynnal

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant
Charity No. 1099878 Rhif Elusen



Ymwelwyr Annibynnol

Helo

Mae gwasanaeth ymwelwyr annibynnol ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sydd heb gael cysylltiad cyson â'u teuluoedd ers amser maith. Mae'r gwasanaeth yno i gynnig cyngor, i fod yn ffrind ag yn gefn i pobl ifanc sydd mewn gofal. Nid gweithwyr cymdeithasol yw'r ymwelwyr annibynnol, tydi nhw ddim yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae y Ddeddf Plant yn dweud *"gan nad wyf mewn cysylltiad cyson â'm teulu caf ymwelydd annibynnol os ydwyf eisiau".*

Cei siarad â dy ymwelydd annibynnol am unrhyw beth a bydd yn ei gadw yn gyfrinachol, heblaw fod yr ymwelydd annibynnol yn poeni am dy ddiogelwch neu ddiogelwch rhywun arall, yna bydd rhaid ei drafod gyda dy weithiwr cymdeithasol.

Os wyt ti'n meddwl yr hoffet gael ymwelydd annibynnol i ymweld â thi a dy fod eisiau gwybod mwy rho ✓ yn y bocs isod a'i ddychwelyd yn yr amlen rhadbost amgaedig. Bydd rhywun o Tros Gynnal yn galw am sgwrs â ti i weld a oes modd cael ymwelydd annibynnol sydd yn rhannu yr un math o ddiddordebau a ti.

☐ **Ie, dwi eisiau gwybod mwy am y gwasanaeth ymwelydd annibynnol**

☐ **Na, dwi ddim eisiau gwybod mwy am y gwasanaeth ymwelydd annibynnol**

Cysylltu...

Cei gysylltu â dy ymwelydd annibynnol trwy Tros Gynnal ar y rhifau isod a bydd y neges yn cael ei basio ymlaen.

Cysylltu gyda eiriolwr...

Os wyt eisiau help gyda phethau eraill, fel cael rhywun i fynd gyda ti i dy adolygiadau neu gynhadleddau achos, neu dy helpu os wyt eisiau gwneud cwyn, cei ffonio Tros Gynnal dy hyn ar y rhif isod a threfnu i gwrdd gyda eiriolwr.